

Mae'r genhinen yn un o symbolau Cymru. Oherwydd hyn, mae diddordeb arbennig mewn cynhyrchu cennin Cymreig i'w gwerthu un ai'n lleol neu ymhellach i ffwrdd. Mae cennin traddodiadol a dyfir dros y gaeaf yn wydn, a gellir eu cadw yn y cae nes bod eu hangen. Anfantais hyn yw eu bod yn meddiannu tir am gyfnod hirach o'r flwyddyn.

SAFLE

Mae ar gennin angen pridd dwfn, llaith ond heb fod yn ddirlawn. Os yw'r pridd yn rhy ysgafn, mae'n debyg y bydd angen dyfrio. Dylai'r pH fod yn 6.5 neu ychydig yn uwch; nid fydd cennin yn ffynnu mewn pridd asidig.

Un ystyriaeth bwysig wrth ddewis safle ar gyfer cennin gaeaf yw cyflwr y tir yn ystod y gaeaf gan mai dyma pryd y bydd y cnwd yn cael ei gynaeafu a bydd angen i beiriant allu cyrraedd atynt. Mae cennin yn perthyn i deulu'r garlegyn, fel nionod (winwns) a garleg. Dylid cael bwlch o dair blynedd o leiaf rhwng cnydau o unrhyw aelod o deulu'r garlegyn ar yr un darn o dir.

PLANNU

Er ei bod yn bosib drilio cennin yn syth i mewn i'r cae, mae'n llawer mwy cyffredin eu codi mewn modiwlau, mewn tŷ gwydr fel arfer, a'u trawsblannu wedyn. Mae'n arbennig o anodd chwynu planhigion sydd wedi'u drilio'n syth i mewn.

Wrth ddefnyddio modiwlau ar gyfer trawsblannu, mae'n hollbwysig eu bod yn cael eu cadw'n llaith drwy'r adeg, ac mae angen gofalu eu bod yn cael eu dyfrio'n arbennig o drwyadl yn syth ar ôl trawsblannu er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn bwrw gwreiddiau.

Plannwch â bwlch o 10cm rhwng bob un yn y rhes ac oddeutu 50cm rhwng rhesi; gellir addasu'r lle gwag rhwng rhesi i siwtio peiriannau. Bydd y bylchiadau hyn yn rhoi poblogaeth nominal o 200,000 o blanhigion. Gyda cholledion a phlanhigion na ellir rhoi gradd iddynt, dylech allu cynaeafu tua 140,000 o blanhigion gwerthadwy. Bydd amser plannu'n dibynnu ar farchnadoedd a gwahanol fathau, ond fel arweiniad bras dylai cennin haf gael eu plannu ym mis Ebrill a chennin gaeaf cyn diwedd Mai.

MAETH CNYDAU

Mae angen llai o wrtaith ar gennin na nionod (winwns). Mae Tabl 1, isod, yn dangos argymhellion Defra, ond mae'n debyg fod y rhain braidd yn uchel, yn arbennig ar gyfer nitrogen. Bydd gormod o nitrogen yn annog gormod o dyfiant gwyrd ar y top a dim digon o dyfiant gwyn yn y gwaelod. Yn achos cennin, dylai pob gwrtait hael ei roi ar ôl trawsblannu, gan ei roi ar dri thro fel arfer.

Tabl 1 – Gwrtait sy'n cael ei argymhell ar gyfer cennin gan RB209

	Mynegai SNS, P, K neu Mg						
	0	1	2	3	4	5	6
	kg/ha						
Nitrogen	200	150	100	50	0	0	0
Ffosfad (P ₂ O ₅)	200	150	100	50	0	0	0
Potash (K ₂ O)	250	200	150(2-) 100(2)	0	0	0	0
Magnesiwm (MgO)	150	100	0	0	0	0	0

Ffynhonnell: Defra – Argymhellion gwrtait ar gyfer cnydau amaethyddol a garddwriaethol (RB209)

RHEOLAETH

Efallai y bydd angen dyfrio i gadw'r cnwd yn tyfu'n gyson. Mae'n bwysig cadw chwyn dan reolaeth. Mae angen archwilio'n rheolaidd am drothwyon critigol o blâu a chlefydau.

Bydd rhychu'n arwain at gyfran uwch o goesyn gwyn a ddymunir ond rhaid cymharu cost y gwaith â'r gwelliant posib mewn refeniw i benderfynu a yw hyn yn werth chweil.

PLÂU A CHLEFYDAU

Mae cennin yn tueddu i fod yn weddol ddidrafferth. Bydd arfer cylchdroadau cnydau da'n helpu i leihau'r tebygrwydd o glefydau sy'n cael eu cario yn y pridd.

LINDYS (yn arbennig lindys gwyfyn y maip (erfin)) Gall y rhain fod yn broblem, yn arbennig ar hafau sych. Mae'r lindys yn bwydo ar wreiddiau a dail planhigion - unwaith y maen nhw yn y pridd ac yn bwydo ar wreiddiau maen nhw bron yn amhosib eu rheoli.

Thrips Nionod (winwns) (*Thrips tabaci*) Mae'r rhain yn broblem gyffredin ar y cyfandir, ac yn broblem gynyddol mewn cennin a dyfir ym Mhrydain. Fel lindys, mae problemau yn sgil thrips yn waeth ar dymhorau sych, ac felly mae dyfrio'n helpu i gadw plâu dan reolaeth. Mae llawer o dyfwyr masnachol yn dilyn trefn chwistrelliadau proffylactig ddwys i atal plâu. Mae'n bosib na fyddai hyn yn gost-efeithiol.

Cawod goch (*Puccinia allii*) Dyma glefyd pwysig i gennin, ac mae ffwngleiddiaid ar gael i'w drin. Mae **Blaen gwyn** (*Phytophthora porri*) a **Rhwd gwyn** (*Sclerotium cepivorum*) yn glefydau ffwngaid eraill y dylid cadw golwg amdanynt.

CYNAEAFU

Eich marchnad ddylai benderfynu beth fydd maint eich cennin pan gânt eu cynaeafu. Mae'n bosib y gellir cael pris uchel am gennin bach, "babi" cennin, ond bydd angen mwy o lafur dwys i'w paratoi. Ar raddfa fach, gellir codi cennin â llaw, gan ddefnyddio fforch i lacio'r pridd o gwmpas y planhigion. Ar raddfa fwy, bydd angen cynaeafu'n fecanyddol. Fel arfer torrir o dan y cnwd ac yna'i godi. Mae'r rigiau cynaeafu mwyaf soffistigedig yn dirgrynu i ysgwyd y pridd nad oes mo'i angen oddi ar y gwreiddiau ac yn cynnwys cyllyll trimio sy'n troi i drimio'r gwreiddiau a phennau'r planhigion. Ar raddau llai, bydd y gwaith trimio a glanhau i gyd yn gorfod cael ei wneud â llaw. Rhaid golchi'r cnwd y tro olaf mewn dŵr yfadwy.

Fel arfer gwerthir cennin mewn bwnshiad o dair; dylai'r tair fod mor debyg ag y bo modd o ran maint.

Ar ôl y cynhaeaf gofawch fod holl weddillion y cnwd yn cael eu clirio'n llwyr o'r safle fel bod cyn lleied ag y bo modd o heintiau a chlefydau'n ymgasglu yno.

Ffiniau elw dangosol ar gyfer cynhyrchu un hectar o gennin

	Eitem	Swm	£/Uned	£Cyfanswm
Cynnyrch				
Gwerthiant Cnydau	kg	16,000	0.75	12,000
		Cyfanswm Cynnyrch		12,000
Costau				
Llafur Achlysurol	Plannu /cynaeafu	1000awr	6.00	6,000
Llafur Cytundeb	Plannu, chwistrellu, cynaeafu	24awr	25.00	600
Costau Gwrtaith	Gwrtaith	1	165.00	165
Costau eraill	Defnydd Pacio	1500	0.25	375
Costau Planhigion	Planhigion fesul '000	200	10.00	2,000
	Rhaglen chwyn-,ffwng-, pryfladdwr	1	600.00	600
Chwistrellu				
		Cyfanswm Costau		9,740
		Ffin Elw Gros		£2,260

Ffynhonnell : Amrywiol



Er y gwneir pob ymdrech i sicrhau fod y wybodaeth a roddir yn y daflen hon yn gywir, ni ellir dal CALU yn gyfrifol am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail ei chynnwys. CALU yw'r Ganolfan Ddatblygu ar gyfer garddwriaeth, biomas, cnydau newydd, coedlannau fferm a da byw newydd yng Nghymru. Noddir CALU gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o Cyswilt Ffermio

www.calu.bangor.ac.uk

CALU – Yn Cefnogi Defnyddio Tir yn Gynaliadwy